

Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Fynwy 2018-2033 Monmouthshire Replacement Local Development Plan 2018-2033 Examination

Arolygwyr/Inspectors: J de-Courcey BSc LLB MTPI MRTPI
C MacFarlane BSc (Anrh) MSc MRTPI

Swyddog Rhaglen/Programme Officer: Helen Wilson
helen@programmeofficers.co.uk
01432 639547 / 07879 443035

Andrew Jones
Pennaeth Cynllunio
Cyngor Sir Fynwy

11 Mai 2026

Annwyl Mr Jones

Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Sir Fynwy – Cwestiynau Cychwynnol

Yn dilyn yr Archwiliad parhaus, gofynnwn i'r Cyngor ymateb i'r materion a nodir isod erbyn **27 Mai 2026**. Os yw'r wybodaeth a geisiwn eisoes wedi'i darparu yn y dogfennau a gyflwynwyd, cyfeiriwch y rhain os gwelwch yn dda.

- Yn ystod y sesiynau gwrandawriad sydd i ddod, efallai y bydd angen i'r partïon drafod a chytuno ar newidiadau i strwythur a / neu gynnwys y CDLIN. Er mwyn sicrhau bod y broses hon yn cael ei chynnal mewn modd effeithlon ac effeithiol, byddem yn ddiolchgar pe gallai'r Cyngor gadarnhau y bydd swyddog, sydd ag awdurdod dirprwyedig i wneud newidiadau i'r CDLIN a chytuno ar baratoi tystiolaeth ychwanegol, yn bresennol ym mhob sesiwn wrandawriad.
- Mae Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 yn diffinio 'egwyddorion amgylcheddol' statudol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad ag asesu cynlluniau a rhaglenni. Gofynnwn i'r Cyngor roi esboniad o sut mae'r egwyddorion hyn yn cael eu hystyried yn y CDLIN a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

Os yw'r materion yr ydym wedi'u nodi uchod yn aneglur, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen cyn gynted â phosibl.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr arholiad. Nid ydym yn gwahodd unrhyw sylwadau neu ymatebion gan bartïon sydd â diddordeb.

Yn gywir,

J de-Courcey ac C MacFarlane

AROLYGWYR